

Sunday 28th September 2025
+ The 15th Sunday after Trinity

The collect of the day

God, in generous mercy you sent the Holy Spirit upon your Church in the burning fire of your love : grant that your people may be fervent in the fellowship of the gospel that, always abiding in you, they may be found steadfast in faith and active in service; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Amos
(6.1a, 4-7)

Thus says the Lord, the God of hosts: Alas for those who are at ease in Zion, and for those who feel secure on Mount Samaria. Alas for those who lie on beds of ivory, and lounge on their couches, and eat lambs from the flock, and calves from the stall; who sing idle songs to the sound of the harp, and like David improvise on instruments of music; who drink wine from bowls, and anoint themselves with the finest oils, but are not grieved over the ruin of Joseph!

Therefore they shall now be the first to go into exile, and the revelry of the loungers shall pass away.

The Psalm
(146)

Alleluia. Praise the Lord, / O my / soul: while I / live • will I / praise the / Lord; as long as I / have any / being: I will sing / praises / to my / God.

Put not your trust in princes, nor in any / human / power: for there / is no / help in / them. When their breath goes forth, they re/turn to the / earth: on that day / all their / thoughts / perish.

Happy are those who have the God of Jacob / for their / help: whose hope is / in the / Lord their / God; Who made heaven and earth, the sea and / all that is / in them: who / keeps his / promise for / ever;

Who gives justice to those that / suffer / wrong: and / bread to / those who / hunger. The Lord looses / those that are / bound: the Lord opens the / eyes / of the / blind;

The Lord lifts up those who / are bowed / down: the / Lord / loves the / righteous; The Lord watches over the stranger in the land; he upholds the / orphan and / widow: but the way of the wicked / he turns / upside / down. The Lord shall / reign for / ever: your God, O Zion, throughout all gene/rations. / Alle/luia.

The reading from 1 Timothy
(6.6-9)

Of course, there is great gain in godliness combined with contentment; for we brought nothing into the world, so that we can take nothing out of it; but if we have food and clothing, we will be content with these. But those who want to be rich fall into temptation and are trapped by many senseless and harmful desires that plunge people into ruin and destruction. For the love of money is a root of all kinds of evil, and in their eagerness to be rich some have wandered away from the faith and pierced themselves with many pains.

But as for you, man of God, shun all this; pursue righteousness, godliness, faith, love, endurance, gentleness. Fight the good fight of the faith; take hold of the eternal life, to which you were called and for which you made the good confession in the presence of many witnesses.

In the presence of God, who gives life to all things, and of Christ Jesus, who in his testimony before Pontius Pilate made

the good confession, I charge you to keep the commandment without spot or blame until the manifestation of our Lord Jesus Christ, which he will bring about at the right time — he who is the blessed and only Sovereign, the King of kings and Lord of lords. It is he alone who has immortality and dwells in unapproachable light, whom no one has ever seen or can see; to him be honour and eternal dominion. Amen.

As for those who in the present age are rich, command them not to be haughty, or to set their hopes on the uncertainty of riches, but rather on God who richly provides us with everything for our enjoyment. They are to do good, to be rich in good works, generous, and ready to share, thus storing up for themselves the treasure of a good foundation for the future, so that they may take hold of the life that really is life.

The reading from the Gospel according to Saint Luke
(16.19-31)

‘There was a rich man who was dressed in purple and fine linen and who feasted sumptuously every day. And at his gate lay a poor man named Lazarus, covered with sores, who longed to satisfy his hunger with what fell from the rich man’s table; even the dogs would come and lick his sores.

‘The poor man died and was carried away by the angels to be with Abraham. The rich man also died and was buried. In Hades, where he was being tormented, he looked up and saw Abraham far away with Lazarus by his side. He called out, ‘Father Abraham, have mercy on me, and send Lazarus to dip the tip of his finger in water and cool my tongue; for I am in agony in these flames.’”

‘But Abraham said, “Child, remember that during your lifetime you received your good things, and Lazarus in like manner evil things; but now he is comforted here, and you are in agony. Besides all this, between you and us a great chasm has been fixed, so that those who might want to pass from here to you cannot do so, and no one can cross from there to us.”

‘He said, “Then, father, I beg you to send him to my father’s house — for I have five brothers — that he may warn them, so that they will not also come into this place of torment.”

‘Abraham replied, “They have Moses and the prophets; they should listen to them.”

‘He said, “No, father Abraham; but if someone goes to them from the dead, they will repent.”

‘He said to him, “If they do not listen to Moses and the prophets, neither will they be convinced even if someone rises from the dead.””

The collect after communion

Keep, O Lord, your Church, with your perpetual mercy; and, because without you our human frailty cannot but fall, keep us ever by your help from all things hurtful, and lead us to all things profitable to our salvation; through Jesus Christ our Lord. AMEN



Dydd Sul 28^{ain} Medi 2025
+ 15^{fed} Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

O Dduw, yn dy drugaredd hael anfonaist yr Ysbryd Glân ar dy Eglwys, yn nhân ysol dy gariad : caniatâ i'th bobl fod yn danbaid yng nghymdeithas yr efengyl fel, gan fyw'n wastadol ynot ti, y ceir hwy yn gadarn mewn ffydd ac yn ymroddgar eu gwasanaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Amos

(6.1a, 4-7)

Gwae y rhai sydd mewn esmwythyd yn Seion, y rhai sy'n teimlo'n ddiogel ar Fynydd Samaria yn gorwedd ar welyau ifori ac yn ymestyn ar eich matresi; yn gwledda ar wŷn o'r ddiadell ac ar y lloi pasgedig; yn canu maswedd i sain y nabl, ac fel Dafydd yn dyfeisio offerynnau cerdd; yn yfed gwin fesul powlennaid, ac yn eich iro'ch hunain â'r olew gorau; ond heb boeni am ddinistr Joseff!

Felly, yn awr, chwi fydd y cyntaf i'r gaethglud; derfydd am riantwch y rhai sy'n gorweddian.

Y Salm

(146)

Molwch yr Arglwydd. Fy enaid, mola'r Arglwydd. Molaf yr Arglwydd tra byddaf byw, canaf fawl i'm Duw tra byddaf.

Peidiwch ag ymddiried mewn tywysogion, mewn unrhyw un na all waredu; bydd ei anadl yn darford ac yntau'n dychwelyd i'r ddaear, a'r diwrnod hwnnw derfydd am ei gynlluniau.

Gwyn ei fyd y sawl y mae Duw Jacob yn ei gynorthwyo, ac y mae ei obaith yn yr

Arglwydd ei Dduw, creawdwr nefoedd a daear a'r môr, a'r cyfan sydd ynddynt.

Y mae ef yn cadw'n ffyddlon hyd byth, ac yn gwneud barn â'r gorthrymedig; y mae'n rhoi bara i'r newynog. Y mae'r Arglwydd yn rhyddhau carcharorion;

y mae'r Arglwydd yn rhoi golwg i'r deillion, ac yn codi pawb sydd wedi eu darostwng; y mae'r Arglwydd yn caru'r rhai cyfiawn.

Y mae'r Arglwydd yn gwylio dros y dieithriad, ac yn cynnal y weddw a'r amddifad; y mae'n difetha ffordd y drygionus. Bydd yr Arglwydd yn teyrnasu hyd byth, a'th Dduw di, O Seion, dros y cenedlaethau. Molwch yr Arglwydd.

Darlleniad o 1 Timotheus

(6.6-19)

Ac wrth gwrs, y mae cyfoeth mawr mewn bywyd duwiol ynghyd â bodlonrwydd mewnol. A'r ffaith yw, na ddaethom â dim i'r byd, ac felly hefyd na allwn fynd â dim allan ohono. Os oes gennym fwyd a dillad, gadewch inni fodloni ar hynny. Y mae'r rhai sydd am fod yn gyfoethog yn syrthio i demtasiynau a maglau, a llu o chwantau direswm a niweidiol, sy'n hyrddio pobl i lawr i ddistryw a cholledigaeth. Oherwydd gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian, ac wrth geisio cael gafael ynddo crwydrodd rhai oddi wrth y ffydd, a'u trywanu eu hunain ag arteithiau lawer.

Ond yr wyt ti, ŵr Duw, i ffoi rhag y pethau hyn, ac i roi dy fryd ar uniondeb, duwioldeb, ffydd, cariad, dyfalbarhad ac addfwynder. Ymdrecha ymdrech lew y ffydd, a chymer feddiant o'r bywyd tragwyddol. I hyn y cefais dy alw pan wnaethost dy gyffes lew o'r ffydd o flaen tystion lawer.

Yng ngŵydd Duw, sy'n rhoi bywyd i bob peth, ac yng ngŵydd Crist Iesu, a dystiodd i'r un gyffes lew o flaen Pontius

Pilat, yr wyf yn dy gymell i gadw'r gorchymyn yn ddi-fai a digerydd hyd at ymddangosiad ein Harglwydd Iesu Grist, a amlygir yn ei amser addas gan yr unig Bennaeth bendigedig, Brenin y brenhinoedd, Arglwydd yr arglwyddi. Ganddo ef yn unig y mae anfarwoldeb, ac mewn goleuni anhygyrch y mae'n preswyllo. Nid oes neb wedi ei weld, ac ni ddichon neb ei weld. Iddo Ef y byddo anrhydedd a gallu tragwyddol! Amen.

Gorchymyn di i gyfoethogion y byd presennol beidio â bod yn falch, ac iddynt sefydlu eu gobaith, nid ar ansicrwydd cyfoeth ond ar y Duw sy'n rhoi inni yn helaeth bob peth i'w fwynhau. Annog hwy i wneud daioni, i fod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da, i fod yn hael ac yn barod i rannu, ac felly i gael trysor iddynt eu hunain fydd yn sylfaen sicr ar gyfer y dyfodol, i feddiannu'r bywyd sydd yn fywyd yn wir.

Gwrandewch Efengyl Crist

yn ôl Sant Luc

(16.19.31)

"Yr oedd dyn cyfoethog oedd yn arfer gwisgo porffor a lliain main, ac yn gwledda'n wych bob dydd. Wrth ei ddrws gorwedda dyn tlawd, o'r enw Lasarus, yn llawn cornwydydd, ac yn dyheu am wneud pryd o'r hyn a syrthiai oddi ar fwrdd y dyn cyfoethog; ac yn wir byddai'r cŵn yn dod i lyfu ei gornwydydd.

"Bu farw'r dyn tlawd, a dygwyd ef ymaith gan yr angylion i wledda wrth ochr Abraham. Bu farw'r dyn cyfoethog yntau, a chladdwyd ef. Yn Hades, ac yntau mewn poen arteithiol, cododd ei lygaid a gweld Abraham o bell, a Lasarus wrth ei ochr. A galwodd, 'Abraham, fy nhad, trugarha wrthyf; anfon Lasarus i wlychu blaen ei fys mewn dŵr ac i oeri fy nhafod, oherwydd yr wyf mewn ingoedd yn y tân hwn.'

"'Fy mhlentyn,' meddai Abraham, 'cofia iti dderbyn dy wynfyd yn ystod dy fywyd, a Lasarus yr un modd ei adfyd; yn awr y mae ef yma yn cael ei ddiddanu, a thithau yn dioddef mewn ingoedd. Heblaw hyn oll, rhyngom ni a chwi y mae agendor llydan wedi ei osod, rhag i neb a ddymunai hynny groesi oddi yma atoch chwi, neu gyrraedd oddi yna atom ni.'

"Atebodd ef, 'Os felly, fy nhad, rwy'n erfyn arnat ei anfon ef i dŷ fy nhad, at y pum brawd sydd gennyf, i'w rhybuddio am y cyfan, rhag iddynt hwythau ddod i'w harteithio yn y lle hwn.'

"Ond dywedodd Abraham, 'Y mae Moses a'r proffwydi ganddynt; dylent wrando arnynt hwy.'

"'Nage, Abraham, fy nhad,' atebodd ef, 'ond os â rhywun atynt oddi wrth y meirw, fe edifarhânt.'

"Ond meddai ef wrtho, 'Os nad ydynt yn gwrandao ar Moses a'r proffwydi, yna ni chânt eu hargyhoeddi hyd yn oed os atgyfoda rhywun o blith y meirw.'"

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Cadw, O Arglwydd, dy Eglwys, â'th drugaredd tragwyddol ; a chan na all ein gwendid dynol hebot ti ond syrthio, cadw ni bob amser trwy dy gymorth rhag pob peth niweidiol, ac arwain ni at bob peth sy'n fuddiol i'n hiachawdwriaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmu trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004 Cynddeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.